**Holiadur Canfyddiad Rhanddeiliaid – Gwaith Rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg**

**Chwefror 2024**

1. Llywodraeth Cymru

2. Safonau'r Gymraeg

3. Rheoliadau Rhif 1

4. Anfodlon i raddau

5. Anghytuno i raddau

6. Anghytuno i raddau

7. Cytuno'n gryf

8. Anghytuno'n gryf

9. Cytuno i raddau

10. Cytuno i raddau

11. Y safon dwi'n teimlo nad ydym yn ymateb yn llawn iddo o hyd yw'r un sydd yn gofyn i ni hyrwyddo'n gwasanaethau, byddai amlinellu arfer dda yn y maes hwn o gymorth. Rydyn ni wrthi'n gweithio ar ein prosesau mewnol ar gyfer asesu effaith ar hyn o bryd ac yn gwerthfawrogi'r ddwy seminar diweddar ar y pwnc oedd yn werthfawr iawn o ran ailwampio'n trefniadau ni. O ran y safonau gweithredol, hoffwn dynnu sylw penodol at asesu sgiliau'r gweithlu, a'r anghysondeb sydd ar waith o ran sut yr ydym yn cyflawni hyn. Braf byddai gweld matrics sgiliau cyffredin yn cael ei ddatblygu (yn dilyn y CEFR wrth gwrs!) a'i fabwysiadu gan bob sefydliad yn gyson. Dechreuwyd prosiect i graffu ar y mater sawl blwyddyn yn ôl, a byddai'n braf atgyfodi hyn gydag arbenigedd y Ganolfan yn arwain ar y mater.

12. Byddai deall dyfarniadau'r Comisiynydd yn fwy cyffredinol o ddefnydd i ni fel sefydliad wrth ddehongli'r gofynion a sicrhau cydymffurfiaeth. Rydyn ni wedi'n strwythuro fel sefydliadau Rheoliadau Rhif 1 yn y de ddwyrain i gwrdd yn gyson i drafod materion cydymffurfiaeth. Mae'r ymgysylltu yma yn golygu ein bod yn dysgu llawer o glywed am y cwynion a dyfarniadau'r Comisiynydd ond byddai gwneud hyn ar lefel genedlaethol ac ar draws yr ystod o Reoliadau yn ddefnyddiol. Dwi'n cadw llygad barcud ar y gofrestr orfodi ar wefan y Comisiynydd ond byddai bwletin o wybodaeth chwarterol yn ddefnyddiol. Rydyn ni'n paratoi bwletin cwynion mewnol er mwyn rhannu gwybodaeth debyg o fewn y sefydliad am y math o gwynion y derbynnir, ac mae'n un o eitemau mwyaf poblogaidd y fewnrwyd yn y Llywodraeth. Byddai mantais enfawr inni o gael system debyg er mwyn hysbysu sefydliadau o ddehongliad y Comisiynydd o'r gofynion. Rhaid canmol y rhannu gwybodaeth sydd yn digwydd ar ddyfarniadau'r Tribiwnlys - rydyn ni'n eu gweld yn ddefnyddiol tu hwnt ac yn safonol iawn o ran

cynnwys.  Maen nhw hefyd yn gyfle i dynnu staff perthnasol yn y sefydliad i fewn i berchnogi cydymffurfiaeth ar faterion o bwys.  Rhaid hefyd canmol adran arferion effeithiol y Comisiynydd ar ei gwefan, a byddwn yn croesawu mwy fyth o esiamplau ar ffurf fideo/gwybodaeth - rydyn ni'n aml iawn yn troi at yr adran hwn er mwyn darparu cyngor (ee ar recriwtio).  Byddai'n grêt gweld yr adnodd yn ehangu ac gweld mwy o ystod o sefydliadau yn cyfrannu ato.

13. Byddai cyfres o seminarau blynyddol ar ddyfarniadau pwysig y Tribiwnlys a'r Comisiynydd o ddiddordeb inni yn sicr, yn enwedig ar ddyfarniadau sydd ac arwyddocâd i nifer helaeth o sefydliadau, e.e. dyfarniad y Comisiynydd parthed defnydd Cyngor Caerdydd o @cardiff.gov.uk.  Gellid eu grwpio fesul set o Reoliadau neu faes penodol er mwyn deall eu perthnasedd ond dwi'n meddwl bo sefydliadau yn galw allan am rannu gwybodaeth ar gydymffurfio. Mae'r Cod Ymarfer o ddefnydd ac yn adnodd y trown ato yn gyson wrth gynghori ar gydymffurfiaeth, ond efallai ei fod yn un sydd angen ei adolygu erbyn hyn yn sgil dyfarniadau lu a phenderfyniadau'r Tribiwnlys.  Dwi hefyd yn gwerthfawrogi'r cofnod o'r seminarau sydd ar wefan y Comisiynydd, ac yn cyfeirio nol at recordiadau/cyflwyniadau wrth gynghori ar gydymffurfio.   Mae'r rhaid sydd wedi eu cynnal, fel y nodwyd uchod, yn werthfawr iawn i ni wrth ddehongli gofynion y safonau dydd i ddydd.

14. Mae angen edrych o'r newydd ar y broses rheoleiddio er mwyn creu proses mwy hygyrch, chwim, llai biwrocrataidd ac yn bwysig iawn, un sy'n rhoi profiad gwell i achwynwyr, sydd ar hyn o bryd yn aros fisoedd lawer am ddatrysiad/dyfarniad i'w cwynion.  A fyddai modd ystyried proses ddeublyg sydd yn gwahaniaethu rhwng cwynion sydd yn deillio o faterion un-tro, camgymeriadau dynol, cwyn sydd yn anghyffredin i gorff (e.e. cwyn ynghylch mater nad yw'r Comisiynydd wedi'i dderbyn yn y 12 mis diwethaf ynghylch y corff hwnnw), ac sydd ddim yn adlewyrchu problem mwy systemig/strategol o'u cymharu a chwynion derbynnir yn gyson, sy'n adlewyrchu diffyg system/proses, neu broblem strategol mwy difrifol mewn corff.  Ar gyfer y cyntaf, gellid adlewyrchu Cam 1 prosesau cwynion mewnol cyrff megis y Llywodraeth, sydd yn mynnu ymchwilio, gweithredu ac ymateb o fewn 10 niwrnod gwaith i unrhyw gwyn a dderbynnir.  Ar sail yr ymateb hwnnw, (y ffeithiau, y gweithredu a'r gwersi a ddysgwyd) a hyd yn oed mewn achos lle dyfarnir fod tor safon wedi digwydd, gellid ystyried a oes rhaid symud ymlaen i'r ail gam a chynnal ymchwiliad, sydd yn debycach i'r broses rheoleiddio presennol (ond llai biwrocrataidd!).  Gellid gweithio gyda chyrff drwy gyfrwng gweithdai/canllawiau i'w hyfforddi i allu ymateb yn llawn i Cam 1, i amlinellu disgwyliadau'r Comisiynydd o ran y math o wybodaeth a lefel y manylder y disgwylir ganddynt, er mwyn gallu osgoi camau pellach. Gellid hyd yn oed greu templed i hwyluso'r ymateb hwn!  Nid oes rhaid galw'r broses Cam 1 yma yn ddatrysiad anffurfiol, gan fod proses bendant, ffurfiol, wedi'i ddiffinio ar waith, ond yn hytrach, gellid ei alw yn ddatrysiad cynnar/datrysiad Cam 1/datrysiad buan/datrysiad ymateb i gwyn/datrysiad heb ymchwiliad, a galw Cam 2 yn 'ddatrysiad ymchwiliad llawn'.

Un sylw pellach ar broses y Comisiynydd o reoleiddio, yw'r broses casglu tystiolaeth gan y swyddog ymchwilio. Yn gyffredinol nid oes cyfle uniongyrchol i drafod materion yn ymwneud a chwynion/gweithredu i osgoi cwyn eto gyda'r swyddog ymchwilio y tu hwnt i'r hysbysiad tystiolaeth. Byddai cyfle i gyfarfod mewn achosion mwy cymhleth/strategol yn sicr o fantais o ran dealltwriaeth ac yn golygu adroddiad drafft sydd yn adlewyrchu camau gweithredu sy'n gyraeddadwy, rhesymol a chymesur, yn enwedig o ran amserlen. Os mabwysiadir proses ddeublyg fel uchod, dylai cyfarfod o'r fath fod yn ran diofyn o'r broses cynnal ymchwiliad llawn, ac yn rhan drwy eithriad o gynnal datrysiad buan. Teimlwn weithiau fod amserlenni camau gweithredu mewn adroddiadau ymchwiliadau yn rhy fympwyol heb sail na dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen i'w gweithredu. Cawsom brofiad cadarnhaol iawn o un ymchwiliad cymhleth i wasanaeth digidol yn Trafnidiaeth Cymru, a pharodrwydd Esyllt y swyddog ymchwilio i gwrdd droeon er mwyn deall yn llawn y camau, yr heriau a'r amserlen, ac unwaith y cyflwynwyd yr adroddiad terfynol, yn monitro cynnydd gweithredu'r camau gweithredu. Canlyniad y cyfarfodydd oedd adroddiad priodol o du'r Comisiynydd oedd yn realistig o ran disgwyliadau ac amserlen, ac o du Trafnidiaeth Cymru, golygodd hwn berchnogaeth lawn o broblem oedd angen datrysiad arloesol iddi, ac un rydyn ni wedi trafod ei droi'n esiampl o arfer effeithiol. Roedd yn brofiad cadarnhaol iawn.

Yn gyffredinol, dwi'n teimlo bo llawer gormod o'n hamser ni fel tîm bach iawn o ddau yn dal i fynd ar reoli'r broses reoleiddio, i helpu cydweithwyr a chontractwyr a staff cyrff hyd braich i ymateb i ymchwiliadau'r Comisiynydd. Mae hyn er inni greu canllaw i gydweithwyr i ddeall proses ymchwiliad, canllaw sy'n amlinellu pob cam yn y broses, a chyfrifoldebau swyddogion i ymateb yn llawn ac yn brydlon. Da o beth byddai gallu canolbwyntio fwy fel tîm ar faterion sydd yn ymwneud gyda defnydd iaith yn fwy uniongyrchol, megis gofynion y safonau hyrwyddo gwasanaethau ac, yn bennaf oll, datblygu defnydd y Gymraeg yn fewnol yn y Llywodraeth.